

# **Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

**Mehfin 2017**

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

<b>Teitl:</b> Cynllun tlodi newydd seiliedig ar alw i olynu cynllun presennol Cartrefi Clyd Nyth	<b>Rhif Cyfeirnod yr Asesiad</b> <i>(llenwyd gan Uned y Gymraeg):</i>				
<b>Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:</b>	<b>Chelsea Preece</b>				
<b>Dyddiad:</b>	<b>21/06/2017 (y fersiwn ddiweddaraf)</b>				
<b>Arweinydd polisi:</b>	Paul Moyle				
<b>Manylion cyswllt:</b>	<b>03000 250507</b>				
<b>Math o Raglen/Prosiect</b> <input type="checkbox"/> Polisi <span style="margin-left: 150px;"><input checked="" type="checkbox"/> Prosiect neu raglen</span> <input type="checkbox"/> Deddfwriaeth <span style="margin-left: 150px;"><input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad</span> <input type="checkbox"/> Grant <span style="margin-left: 150px;"><input type="checkbox"/> Gwasanaethau</span> <input type="checkbox"/> Newid busnes <span style="margin-left: 150px;"><input type="checkbox"/> Contractau, tendrau</span> <input type="checkbox"/> Seilwaith <input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf <input type="checkbox"/> TGCh <input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
<b>Costau: Beth yw'r cost oes gyfan a ragwelir ar gyfer y rhaglen/prosiect?</b> Os yw'n llai na £25k, nid oes angen asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
Llai na £25k	£25k - £49k	£50k - £249k	£250k - £1 filiwn	Mwy na £1miliwn	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
<b>O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg?</b> Costau cyfieithu unrhyw ddeunydd marchnata neu lythyrau allanol.					
<b>Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?</b>					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Mwy na 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<b>Dyddiadau pwysig yn hanes y rhaglen/prosiect:</b>					

Dechrau: 1 Ebrill 2018

Bydd y contract ar gyfer y cynllun yn para 5 mlynedd (gyda chymalau terfynu) ac opsiwn i'w estyn am 3 blynedd arall.

## **CAM 1: CYNLLUNIO**

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi?**

**Beth yw'r canlyniadau a ddymunir / beth gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?**

Mae dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 i wneud popeth sy'n rhesymol bosibl i ddileu tloidi tanwydd erbyn 2018.

Mae Strategaeth Tloidi Tanwydd 2010 yn amlinellu polisi Llywodraeth Cymru a sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â thloidi tanwydd yng Nghymru a chyrraedd y targed hwn. Dyma rai o'r camau allweddol:

- darparu gwasanaethau cyngor a chymorth cydgysylltiedig o anawdd uchel er mwyn sicrhau bod pob deiliad tŷ yng Nghymru yn gallu cael gafael ar gymorth i leihau ei filiau tanwydd, i sicrhau'r incwm mwyaf bosibl, i wella perfformiad ynni ei gartref ac i leihau'r risg o ddiodef tloidi tanwydd.
- darparu rhaglen Tloidi Tanwydd seiliedig ar y galw ar gyfer Cymru gyfan, a fydd yn cael ei hategu gan raglenni tloidi tanwydd ar sail ardaloedd.

Mae cam gweithredu yn y Strategaeth hefyd i sicrhau bod mesurau effeithlonrwydd ynni a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a ddarperir drwy'n cynlluniau yn cael eu targedu at y bobl sydd yn yr angen mwyaf ac sy'n byw yn y cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni.

Mae'r camau gweithredu hyn yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd drwy *raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru*, sy'n cynnwys cynllun Nyth, sy'n seiliedig ar y galw.

Dyma amcanion y *Rhaglen Cartrefi Clyd*:

- Cymdeithasol – lleihau effaith tloidi tanwydd ar aelwydydd yng Nghymru ac, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol bosibl, dileu tloidi tanwydd;
- Economaidd – creu swyddi gwyrdd a chyfleoedd busnes ar gyfer pobl Cymru;
- Amgylcheddol – lleihau allyriadau nwyon tŷ yn y sector domestig.

Dechreuodd y cynllun Nyth presennol yn 2011 a bwriedir iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2018. Bwriedir i'r cynllun newydd olynu ac adeiladu ar y cynllun Nyth presennol.

Yn unol â'r camau gweithredu yn y Strategaeth Tloidi Tanwydd, bydd cymorth yn parhau i gael ei dargedu at yr aelwydydd hynny sydd yn yr angen mwyaf ac sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni.

Y canlyniadau allweddol a ddymunir ar gyfer y cynllun yw gostyngiad yn nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n byw mewn tloidi tanwydd.

Effeithlonrwydd y cartref o ran ynni yw un o'r ffactorau allweddol sy'n penderfynu a yw aelwyd mewn tlodi tanwydd ai peidio, a dyna hefyd sy'n penderfynu pa mor ddifrifol yw'r tlodi tanwydd hwnnw. Felly, drwy fynd ati i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi incwm isel, gallwn sicrhau bod cynhesu cartrefi yn fwy fforddiadwy. Mae hynny'n helpu i fynd i'r afael â'r amryfal effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â byw mewn cartref oer, ac sy'n amrywio o effeithiau ar iechyd, i gyrhaeddiad addysgol, i allgáu cymdeithasol a'r economi.

Bydd llwyddiant y cynllun yn cael ei fesur drwy ddangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn rhan o'r contract, a thrwy fynd ati i werthuso.

Mae ymchwil cysylltu data ar droed eisoes sy'n asesu effaith cynllun Nyth ar ganlyniadau o ran iechyd. Yn ôl y canfyddiadau diweddaraf, mae Nyth yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y rheini sy'n elwa ar y cynllun, ac maent hefyd yn defnyddio llai ar y GIG.

**Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**

**a**

**Beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Ychydig iawn o bwerau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag incwm isel a phrisiau ynni, sef dau o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar sefyllfa aelwyd o ran tlodi tanwydd, sy'n golygu bod trechu tlodi tanwydd yn gryn her. Gyda'r dulliau ysgogi prin sydd ar gael inni, gallwn wneud cryn wahaniaeth drwy wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi incwm isel yng Nghymru. Cydnabyddir mai dyma'r ffordd fwyaf cynaliadwy i leihau biliau tanwydd yn y tymor hir.

Er bod yr amcangyfrifon mewn ymchwil ddiweddar yn dangos bod llai o aelwydwydd mewn tlodi tanwydd nag yn 2012, amcangyfrifir bod 23 y cant o holl aelwydydd Cymru yn parhau mewn tlodi tanwydd yn 2016. Mae hynny'n cefnogi'r achos o blaid parhau i weithredu ar dlodi tanwydd.

Mae ymchwil ddiweddar gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE), yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae gwelliannau i effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn eu chael ar y niferoedd sydd mewn tlodi tanwydd. Mae hynny'n dangos bod cynllun ar gyfer Cymru gyfan i helpu aelwydwydd ar incwm isel drwy gynnig darpariaeth o'r fath, ynghyd â phe cynhwysfawr o gyngor a chymorth arall, yn parhau'n ffordd hynod effeithiol o leihau mwy ar lefelau tlodi tanwydd.

Wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y cynllun newydd, rydym wedi cymharu'r cynllun arfaethedig ag opsiynau eraill, sef gwneud dim, parhau â chynllun Nyth fel y mae ar hyn o bryd heb ei newid, ac amryfal opsiynau'n ymwneud ag amrywio terfynau gwariant ar fesurau gwella yn ôl y math o aelwyd. Wrth fynd ati i ddatblygu ac i asesu'r opsiynau, rydym wedi ystyried ymchwil berthnasol a wnaed gan y Ganolfan Ynni Cynaliadwy a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu, yn ogystal â'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2016:

Ymgynghoriad:

<https://beta.llyw.cymru/cynllun-tlodi-tanwydd-arweinir-gan-alw-yn-y-dyfodol-i-olynu-cartrefi-clyd-llywodraeth-cymru-nyth>

<https://gov.wales/statistics-and-research/understanding-characteristics-low-income-households-risk-living-cold-homes/?skip=1&lang=cy>

<http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160711-understanding-characteristics-low-income-housholds-en.pdf>

Nodwyd mai opsiwn 4d yw'r un a ffefrir, sef parhau â chynllun seiliedig ar alw pan fydd cynllun Nyth yn dod i ben:

**Opsiwn 4d** – *Diwygio'r cynllun yn unol â chanlyniad yr ymgynghoriad. Ehangu'r cynllun drwy wneud aelwydydd incwm isel ac ynddynt feddiannydd sy'n dioddef o gyflwr sy'n effeithio ar gylchrediad y gwaed neu ar anadlu, yn gymwys ar gyfer mesurau gwella effeithlonrwydd ynni. Ehangu'r cymorth sydd ar gael fel y bo cyngor yn cael ei gynnig yn y cartref i aelwydydd cymwys. Cael gwared ar grantiau rhannol. Diwygio'r terfynau gwariant ar eiddo yn unol â'r sgôr EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni) presennol:*

- Sgôr EPC E – £5,000 ar gyfer eiddo sydd wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad nwy ac £8,000 ar gyfer eiddo nad yw wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad nwy.
- Sgoriau EPC F a G – £8,000 ar gyfer eiddo sydd wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad nwy a £12,000 ar gyfer eiddo nad yw wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad nwy.

Os na chaiff cynllun Nyth newydd ei gyflwyno ac os caniateir i'r cynllun Nyth presennol ddod i ben, gallai hynny arwain at yr effeithiau andwyol a ganlyn:

- diffyg difrifol o ran y cymorth a fyddai ar gael ar lefel Cymru gyfan i aelwydydd incwm isel sy'n agored i niwed a fyddai'n dioddef o dlodi tanwydd neu'n agored iddo, a hynny'n groes i'r Strategaeth Tlodi Tanwydd a'r rhwymedigaeth statudol cysylltiedig.
- cynnydd yn nifer yr aelwydydd yng Nghymru a fydd yn byw mewn tlodi tanwydd
- effeithiau negyddol o ganlyniad i hynny ar iechyd, addysg, cynhwysiant cymdeithasol a'r economi
- mwy o gostau a physau ar wasanaethau iechyd a gofal
- cynnydd yn nifer y marwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf
- gostyngiad ym maint y cyllid a gaiff ei ddenu i Gymru drwy'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO).
- effeithiau ar dargedau datgarboneiddio ar gyfer y sector ynni domestig
- gostyngiad yn nifer y swyddi gwyrdd yn y sector effeithlonrwydd ynni

Byddai'r ffactorau hyn yn effeithio i'r un graddau ar bobl mewn ardaloedd gwledig, lle

mae nifer uwch o adeiladau anodd eu trin sy'n ddrutach i'w gwella. Yn ôl y dystiolaeth isod, mae'n bosibl bod canran uwch o siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau gwledig hyn.

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/WelshLanguageSkills-by-EDiv-2011Census>

**A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – iaith fyw: iaith byw?**

Ydy. Bydd y cynllun Nyth newydd yn cael ei ddarparu o dan contract ac yn cael ei reoli gan reolwr contract ar ran y trydydd parti hwnnw. Bydd yn ofynnol o dan y contract i'r rheolwr hwnnw sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a chyflwyno adroddiad am hynny yn yr un modd ag ar gyfer dyletswyddau a gofynion eraill o dan y contract.

Yn yr un modd â chyda'r cynllun presennol, bydd y gwasanaethau i gwsmeriaid yn ddwyieithog o dan y cynllun newydd a bydd yr holl ddeunyddiau ar gael yn ddwyieithog.

**Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Bydd yr holl wasanaethau ar gael yn Gymraeg, yn yr un modd â chyda'r cynllun Nyth presennol.

Bydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg sydd mewn tlodi tanwydd.

Gallai'r cynllun hefyd gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy wella cartrefi mewn ardaloedd gwledig, lle defnyddir y Gymraeg yn amlach. Pennwyd terfynau gwariant uwch ar fesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi yng nghefn gwlad er mwyn cydnabod ei bod yn anos trin yn adeiladau hyn.

Yn 2015-16, roedd rhyw 33% o'r holl gartrefi a gafodd eu gwella drwy'r cynllun Nyth presennol mewn ardaloedd gwledig.

Drwy sicrhau ei bod yn haws i bobl fforddio gwresogi'r cartrefi hyn, mae yna botensial i siaradwyr Cymraeg fedru aros yn eu cymunedau Cymraeg.

Mae llawer o'r cartrefi a gafodd eu gwella drwy gynllun Nyth yng nghadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg (lle mae rhyw 40% neu fwy o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg). Yn eu plith y mae ardaloedd fel Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn, a Gwynedd.

Bwriedir i'r cynllun hefyd greu swyddi lleol, a gallai hynny gynnig rhagor o gyfleoedd i siaradwyr a chymunedau Cymraeg.

Mae dystiolaeth bod cynllun Nyth yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y sawl sy'n cael cymorth oddi tano, ac mae hynny, yn ei dro, yn arwain at lai o ddefnydd o

wasanaethau iechyd lleol. O dan y cynllun newydd, bydd mesurau effeithlonrwydd ynni ar gael hefyd i gartrefi incwm isel lle mae pobl ar yr aelwyd yn dioddef o gyflyrau sy'n effeithio ar anadlu neu ar gylchrediad y gwaed. Bydd hynny'n cael effaith fuddiol ar siaradwyr Cymraeg sydd ar incymau isel ac sy'n dioddef o gyflyrau iechyd, a bydd hynny, yn ei dro, o fudd i wasanaethau lleol.

Hefyd, gall gwella effeithlonrwydd cartrefi o ran ynni drwy'r cynllun hwn ryddhau arian i'w wario yn yr economi leol a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol drwy alluogi'r rheini a fydd yn cael cymorth i wahodd cymdogion i gartref clyd.

**Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?**

O gofio natur trawsbynciol effeithlonrwydd ynni yn y cartref a thlodi tanwydd, mae gan y cynllun amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Ymhlith y rhanddeiliaid allanol y mae'r trydydd sector, awdurdodau lleol, cwmnïau ynni, busnesau bach a chanolig, y cyhoedd etc. Mae yno hefyd nifer o randdeiliad mewnol, gan gynnwys lechyd, Tai, Tlodi, Addysg, datgarboneiddio etc.

Aed i'r afael ag anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg drwy'r bwriad i ddarparu'r holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn ddwyieithog. Mae'r un peth yn wir am yr holl ddeunyddiau ymgynghori.

O ystyried na chanfuwyd unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg; rydym yn disgwyl ymateb niwtral oddi wrth grwpiau buddiant y Gymraeg. Ar ôl inni gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn, ni chodwyd unrhyw faterion penodol yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch fanylion llawn at ddibenion cadw cofnodion.**

(Gellid defnyddio hwn yn Nhribiwnlys y Gymraeg yn y dyfodol)

O ran y Gymraeg, bydd y cynllun newydd yn union yr un peth â'r cynllun Nyth presennol, sydd wedi bod ar waith ers 2011. Felly, ni fydd unrhyw effeithiau newydd o ganlyniad i'r cynllun oherwydd y bydd yr holl wasanaethau'n parhau i gael eu darparu'n ddwyieithog ac y bydd terfynau uwch yn dal i gael eu defnyddio ar gyfer eiddo yng nghefn gwlad.

Mae effeithiau'r cynllun presennol, a fydd yn parhau fel rhan o gynllun newydd, yn cael eu trafod yng ngham 1 uchod.

**Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

e.e. gofynion o ran data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, yr angen i gysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Rydym wedi trafod gydag Uned y Gymraeg ac mae'r swyddogion wedi cadarnhau nad yw'r cynllun newydd yn debygol o arwain at unrhyw effeithiau negyddol. O gofio

bod cynllun tebyg wedi bod ar gael ers dros 5 mlynedd ac nad yw wedi cael unrhyw effaith negyddol, nid yw hynny'n debygol o newid o dan y cynllun newydd.

## CAM 2: PENNU AC ASESU EFFEITHIAU

### Crynodeb o'r Asesiad Effaith

**Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd, ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.**

#### **Effeithiau cadarnhaol:**

1. Tîm a fydd yn cynnig gwasanaethau dwyieithog i gwsmeriaid
2. Bydd y sawl a fydd yn rheoli'r cynllun ar ran y trydydd parti yn darparu cyhoeddiadau dwyieithog
3. Terfynau gwariant uwch ar fesurau gwella mewn eiddo nad yw wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad nwy (gan gynnwys eiddo yng nghefn gwlad), sy'n golygu y bydd yn haws i bobl fforddio gwresogi eu cartrefi. Bydd hefyd yn helpu siaradwyr Cymraeg i aros yn eu cymunedau Cymraeg eu hiaith.
4. Creu swyddi lleol a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer BBaChau yng Nghymru
5. Effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg a fydd yn elwa ar fesurau gwella, a hynny o ran iechyd, llesiant, cynhwysiant cymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol.
6. Gwasanaethau lleol yn cael eu defnyddio llai.

#### **Effeithiau negyddol:**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau o'r fath.

### **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. cynnydd o ran statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?**

Mae'r gymhareb siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan alwadau yn 50/50 o dan y cynllun presennol; bydd angen i hynny barhau o dan y cynllun newydd. Mae siaradwyr Cymraeg hefyd yn y tîm yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y maes hwn.

### **Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:**

Defnyddiwyd dystiolaeth a gasgwyd gan Nwy Prydain, sy'n rheoli'r cynllun ar hyn o bryd, am y cynllun Nyth presennol.

Defnyddiwyd y data isod ar sgiliau yn y Gymraeg fesul rhanbarth etholiadol.

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/WelshLanguageSkills-by-EDiv-2011Census>

**Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad effaith/asesiad risg?**

Cadarnhaol:   
Negyddol:   
Niwtral:   
Anhysbys:

**Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad**

1. Dim newid sylweddol





	2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau	<input type="checkbox"/>
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	<input type="checkbox"/>
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	<input type="checkbox"/>
<p><b>Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:</b>  <b>Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg?</b>  <b>Manylion am fesurau lliniaru / pwyntiau gweithredu / dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:</b></p> <p>Amherthnasol</p>		
<p><b>Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yr ydych yn bwriadu ei wneud? Pa gwestiynau yr ydych yn dymuno eu gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?</b></p> <p>Amherthnasol</p>		
<p><b>CAM 3: AR ÔL YMGYNGHORI; PARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO</b></p>		
<p><b>Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau yr ydych wedi'u gwneud er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd mewn perthynas â'r Gymraeg?</b></p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, mewn un o'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod yr ymgynghoriad, tynnwyd sylw at y ffaith bod o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd gwledig – aed i'r afael â hynny eisoes o dan y cynllun presennol ac ni fydd unrhyw newidiadau a ddeilliodd o'r ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith yn hynny o beth.</p>		
<p><b>Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?</b></p> <p>Fel rhan o'r contract, bydd yn ofynnol i reolwr y cynllun gyflwyno adroddiadau am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Byddwn hefyd yn monitro unrhyw gwynion gan randdeiliaid a'r rheini a fydd yn manteisio ar y cynllun.</p>		
<p><b>Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?</b></p> <p>Byddwn yn mynd ati, drwy'r broses gaffael a'r fanyleb ar gyfer deiliad y contract newydd, i sicrhau y bodd Safonau'r Gymraeg ar gyfer trydydd partïon yn cael eu dilyn.</p> <p>Byddwn yn monitro drwy gydol oes y cynllun i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac os gwelir bod problemau, byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol. Ond wedi dweud hynny, ni ragwelir unrhyw broblemau.</p>		

**Unrhyw sylwadau eraill** – canlyniadau parhaus yn deillio o werthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

#### 4. Datganiad

**Arweinydd polisi:**

***\*Dilëwch fel y bo'n briodol:***

**\*Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi cael eu rhoi ar waith.**

Enw:

Paul Moyle

Adran:

Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Dyddiad(au):

21/06/2017 (y fersiwn ddiweddaraf)

Llofnod:

*P Moyle*

Dyddiadau adolygu: 31/12/2020

#### **ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL**

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn ystod y cam hwn o'i ddatblygiad. Drwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ailasesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol drwy gydol oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad

Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu